OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2652

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010

## RHAN 8

Diwygiadau i Reoliadau

**Diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005**

**15.**—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(**1**) yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid" ("*the Animal Feed Regulations*") yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010;"; a

(b) ar ôl y diffiniad o "Rheoliad 183/2005" mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Rheoliad 767/2009" ("*Regulation 767/2009*") yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar osod ar y farchnad a defnyddio bwyd anifeiliaid, sy'n diwygio Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor (EC) Rhif 1831/2003 ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/511/EEC, Cyfarwyddebau'r Cyngor 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC a 96/25/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/217/EC;".

(3) Ym mharagraff (2)(b) o reoliad 15 (tramgwyddau, cosbau a gorfodi) hepgorer y geiriau "sy'n cynhyrchu bwyd".

(4) Yn lle paragraff (13) o reoliad 24 (pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig) rhodder y paragraff a ganlyn—

"(13) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "bwyd anifeiliaid cyfansawdd" ("*compound feeding stuff*") yr un ystyr ag sydd i "compound feed" fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(1)(h) o Reoliad 767/2009; a

(b) mae i "bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethiadol penodol" ("*feeding stuff which is intended for a particular nutritional purpose*") yr un ystyr ag sydd i "feed intended for particular nutritional purposes" fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(1)(o) o Reoliad 767/2009.".

(5) Yn y testun Saesneg, ym mharagraff (1)(b) o reoliad 30 (y weithdrefn yn ymwneud â samplau i'w dadansoddi), ar ôl y gair "his" mewnosoder y geiriau "or her".

(6) Ym mhob un o'r rheoliadau 35(1) a (2), 36(1) a (3) a 37(1) a (2) ar ôl y geiriau "Rheoliadau hyn" mewnosoder "neu'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid".

(7) Yn Atodlen 1 (cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig)—

(**1**) O.S. 2005/3368 (Cy.265) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/590 (Cy.66), O.S. 2006/3256 (Cy.296), O.S. 2009/3376 (Cy. 298) ac O.S. 2010/2287 (Cy.199).

(a) yn lle'r ymadrodd “Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006” rhodder “Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010”; a

(b) ychwaneger ar y diwedd “Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar osod ar y farchnad a defnyddio bwyd anifeiliaid.”.

**Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

**16.**—(1) Diwygir Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**2**) yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Ym mharagraff (4)(a) o reoliad 2 (dehongli) hepgorer y geiriau “neu 7”.

(3) Yn nhestun Cymraeg paragraff (2) o reoliad 32 (hysbysiadau yn unol ag Erthyglau 18 ac 19 o Reoliad 882/2004) yn lle'r geiriau “Erthygl 19(1)(a) a (b)” rhodder y geiriau “Erthygl 19(1)(a) neu (b)”.

(4) Ym mharagraff 1(a) o reoliad 41 (tramgwyddau a chosbau) mewnosoder y gair “mewnforio” rhwng y geiriau “darpariaethau” a “penodedig”.

(5) Ym mharagraff (dd) o Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol), yn lle'r ymadrodd “Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006” rhodder “Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010”.

**Dirymiadau**

**17.** Dirymir y Rheoliadau neu'r rhannau ohonynt a restrir yn Atodlen 2.

(**2**) O.S. 2009/3376 (Cy.298) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/2287 (Cy.199).